

Disgrifiad Swydd

CYFARWYDDIAETH: Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc

YSGOL: Gynradd

SWYDD: Athro

GRADD Y SWYDD: Graddfa Gyflog Athrawon

YN ATEBOL I'R: Pennaeth a'r Corff Llywodraethu

DIBEN Y SWYDD:

Cynnal dyletswyddau proffesiynol yr Athro/athrawes yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol a darpariaethau statudol perthnasol eraill.

PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:

- Yn frwd dros addysg ac yn meddu ar yr ymrwymiad a'r ysgogiad i fod yn rhan o Dîm MDPH sy'n galluogi i'r holl blant lwyddo yn eu dysgu.
- Yn meddu ar wybodaeth ymarferol ragorol am y Cwricwlwm i Gymru.
- Yn ymarferydd rhagorol a phrofiadol yn yr ystafell ddosbarth sy'n ysbrydoli ac yn annog plant i gyrraedd eu potensial llawn drwy brofiadau dysgu o ansawdd uchel.
- Cynllunio profiadau dysgu ystyrlon dan do ac yn yr awyr agored.
- Yn meddu ar y gallu i gymell, herio a chynorthwyo eraill.
- Dangos sgiliau cyfathrebu rhagorol i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth â staff, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned leol.
- Meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth ragorol o ddatblygu sgiliau ac addysgeg.
- Yn gallu defnyddio TGCh yn effeithiol i gyflwyno addysgu a dysgu o ansawdd uchel.
- Yn meddu ar y gallu i ddatblygu dwyieithrwydd (Cymraeg fel ail iaith).
- Profiad o strategaethau asesu ar gyfer dysgu.
- Ymrwymiad i ddysgu proffesiynol.
- Gallu cyfrannu at weithgareddau allgyrsiol yr ysgol.
- Disgwyliadau uchel o gyflawniad ac ymrwymiad i godi safonau.
- Yn hyblyg, yn ddyfeisgar ac yn arloesol.



DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

Iechyd a Diogelwch

Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y [Polisi Iechyd a Diogelwch](#)

Cyfle Cyfartal

Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

Diogelu

Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaethau IAA Plant o fewn MASH.

Adolygiad a Hawl i Amrywio

Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

Swyddfa Cofnodion Troseddol

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Manyleb y Person

Athro

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy).

Priodoleddau	Gofynion	Hanfodol	Dull Gwerthuso/Profi
Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant	- Cymhwyster addysgu perthnasol. - Cofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.	Ydy Ydy	Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais.
Gwybodaeth a Phrofiad	- Profiad addysgu diweddar mewn ysgol gynradd. - Gwybodaeth am weithrediad y cwricwlwm, datblygu a diwygio'r cwricwlwm. - Dealltwriaeth o reoli staff cymorth - Gwybodaeth dda ac ystod o ddulliau addysgeg ar gyfer TGCh/Sgiliau Digidol.	Ydy Ydy Ydy	Cyfweliad, ffurflen gais, geirdaon ac arsylwi gwersi.
Sgiliau a Rhinweddau Personol	- Gallu creu amgylchedd dysgu hapus, heriol ac effeithiol. - Hyblygrwydd wrth weithio fel rhan o dîm. - Sgiliau rhyngpersonol da. - Sgiliau trefnu da. - Sgiliau cyfathrebu da. - Sgiliau arddangos da - Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Ydy Ydy Ydy Ydy	Cyfweliad, ffurflen gais, geirdaon ac arsylwi gwersi.

